



Y defnydd ar yr wybodaeth a roddwch yn eich cais am Achrediad Gwasanaethau Archifau

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu unrhyw wybodaeth a gyflwynwch fel rhan o'ch cais am Achrediad Gwasanaethau Archifau, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â rheolaethau yn ymwneud â mynediad at wybodaeth (sef yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i unrhyw wybodaeth a roddwch i ni fel rhan o'ch cais gael ei thrin yn gyfrinachol, byddem yn ddiolchgar pe gallech gysylltu â ni (accreditation@nationalarchives.gov.uk) cyn i chi gyflwyno eich cais am Achrediad Gwasanaethau Archifau. O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â hwy ac sy'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau yn ymwneud ag ymddiriedaeth. Byddai'n ddefnyddiol felly pe gallech esbonio i ni pam y dymunwch i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn rhwymol yn yr Archifau Gwladol.

Bydd yr Archifau Gwladol yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol ei ddatgelu i drydydd parti.

Caiff yr wybodaeth data a gyflwynir yn ystod y broses ymgeisio ar-lein ei chadw gan Fluidware, ein darparwr meddalwedd, a bydd yn agored i'w darpariaethau diogelwch a phreifatrwydd hwy <https://www.surveymonkey.com/mp/legal/privacy-policy/> sef darpariaethau y mae tîm diogelwch data'r Archif Gwladol wedi'u hadolygu a chytuno eu bod yn rhai derbyniol. Er ei fod yn rhan o Surveymonkey, mae canolfannau data Fluidware wedi'u lleoli yng Nghanada. Mae Canada wedi'i gymeradwyo gan yr Undeb Ewropeaidd i dderbyn data wedi'i allforio pan fo'r contractwr yn bodloni'r Ddeddf Diogelu Gwybodaeth Bersonol a Dogfennau Electronig, fel y mae Fluidware.

Yn ystod y broses asesu, rhennir gwybodaeth am geisiadau gydag aseswyr ac mewn rhai achosion gydag adolygwyr cymheiriaid. Rhoddir hyfforddiant i aseswyr ac adolygwyr cymheiriaid a rhaid iddynt barchu cyfrinachedd wrth ddefnyddio, cadw a gwaredu gwybodaeth am geisiadau. Cedwir gwybodaeth am geisiadau o'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon hefyd gan gorff neu gyrff asesu'r gwledydd hynny, at ddibenion asesu a chefnogi'r sector archifau. Bydd y wybodaeth hon yn agored i drefniadau mynediad at wybodaeth y cyrff asesu hynny, yn ogystal â'u prosesau cadw a gwaredu. O'r herwydd, dylech yrru copi o unrhyw ohebiaeth yn ymwneud â gwybodaeth yr hoffech gael ei thrin yn gyfrinachol i gorff/cyrff asesu eich gwlad.

Trosglwyddir data o dro i dro o'r system ar-lein i storfa ddiogel yn System Rheoli Cofnodion Electronig yr Archifau Gwladol. Bydd copïau wrth gefn o'r system gyffredinol yn cael eu creu yn rheolaidd, a'u dileu ar ôl cyfnod o amser. Bydd ceisiadau ac asesiadau a gyflwynwyd yn cael eu cadw i'r hirdymor ac yn destun amserlen cadw a gwerthuso llawn.